"A"

# CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun 13eg Ionawr, 2025**, yng Nghanolfan Bryncroes o 7.30 p.m. hyd 8.20 p.m.
Presennol: Y Cynghorydd Michael Strain (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr Carys H. Evans, Elin Hughes, Dylan Parry Jones, Glyn Roberts, Efan Thomas, Carys E. Williams, Glenys Williams, Iwan J. Williams, Siôn Williams
Ymddiheuriadau: Y Cynghorydd Gwenan Griffiths
Y Cynghorydd Gareth Williams (Cynghorydd Pen Draw Llŷn ar Gyngor Gwynedd)

76. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**
**Croesawodd** y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

77. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**
Datganodd Y Cynghorydd Glyn Roberts fuddiant personol yng nghofnod 79 isod – cais cynllunio C24/0996/32/LL – adeiladu storfa slyri newydd yn Ty'n y Coed, Sarn Mellteyrn.

78. **CADARNHAU COFNODION Y CYNGOR A GYNHALIWYD 9fed RHAGFYR, 2024**
**Cyflwynwyd,** cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd 9fed Rhagfyr, 2024.
(Cynigiwyd gan Y Cynghorydd Glyn Roberts ac eiliwyd gan Y Cynghorydd Siôn Williams gyda phawb yn cytuno).
**Materion yn codi**
**Eitem 67 – cymal (a) Cae Capel, Botwnnog**
**Derbyniwyd** llythyr o gefnogaeth i wrthwynebiad y Cyngor i godi ystad o dai ar Gae Capel, Bownnog, gan Gyngor Cymuned Llannor, Aberdaron a Chyngor Tref Nefyn.
**Nodwyd** y llythyrau.
**Eitem 67 – cymal (c) Mynwent Llandegwnning**
**Nodwyd** fod y fynedfa i Fynwent Llandegwnning wedi cael sylw a diolchwyd i'r Cynghorydd Dylan Parry Jones am wneud y gwaith ar ran y Cyngor.
**Eitem 78 – cymal (d) Coeden Nadolig/addurniadau i'r potiau blodau**
**Adroddwyd** fod taliad o £50, yn unol â phenderfyniad diwethaf y Cyngor, wedi ei wneud i Ganolfan Bryncroes (siec 200845) a Neuadd Goffa Sarn (siec 200844). Nid oedd anfondeb wedi ei derbyn hyd yn hyn gan Gapel Rhydbach, Botwnnog ond **penderfynwyd** awdurdodi'r Clarc i dalu cyn gynted a bo i law.
**Diolchwyd** i'r tri lleoliad am eu gwaith o addurno'r pentrefi dros yr Ŵyl.

79. **CEISIADAU CYNLLUNIO**
Cyflwynwyd a **phenderfynwyd** cefnogi cais C24/0996/32/LL – adeiladu storfa slyri newydd yn Ty'n y Coed, Sarn Mellteyrn.

80. **CAIS AM GYFRANIAD ARIANNOL**
**Cyflwynwyd** cais gan Gyfeillion Mynwent Mellteyrn am gyfraniad tuag at gynnal a chadw'r fynwent.
**Penderfynwyd** cyfrannu £125 i'r Cyfeillion (siec 200846)

81. **MATERION FFYRDD A LLWYBRAU**

**Penderfynwyd** anfon y materion a ganlyn ymlaen i'r Adran Priffyrdd er cael sylw:
Tyllau wedi datblygu ar allt Ty Newydd/Manchester House, Sarn Mellteyrn
Y twll ger Ty Mawr Capel, Bryncroes wedi ymddangos unwaith yn rhagor.
Twll wedi datblygu o flaen y caffi yng Nghongl Meinciau – gan fod nifer o blant yn cerdded i'r Ysgol gall hwn fod yn berygl iawn petai eu troed yn mynd iddo.
Twll dwfn rhwng Ty Maes a Erw Grug, Bryncroes.
Y gwter ochr arall i Benybont, Llangwnnadl (Penybont sydd wrth ymyl Ty Huw) wedi cau a'r dwr yn llifo i lawr y ffordd.
**Penderfynwyd ymhellach** ddiolch i'r Adran Briffyrdd am y modd y bu iddynt roi sylw yn sydyn i'r cwynion anfonwyd atynt ynglyn a chlirio Allt Disgwylfa a'r allt i lawr o Dy Newydd, Sarn Mellteyrn – gwerthfawrogwyd y gwasanaeth.

**Yn y cyswllt yma** tynnodd Y Cynghorydd Glyn Roberts sylw fod un o'r coed ar Gomin Bach, Bryncroes, wedi marw a'r ddwy arall yn dangos gwendid. Addawodd Y Cynghorydd Elin Hughes wneud ymholiadau gyda AHNE Llŷn er canfod a oedd coed cynhenid mewn stôc ganddynt. Os na, **rhoddwyd hawl i'r Cynghorydd Roberts** brynu (gyda'r Cyngor yn ei ad-dalu) a phlannu tair coed arall ar y safle.

82 **AWDURDOD I DALU**

**Awdurdodwyd y taliadau a ganlyn:**

| | |
|---|---|
| J.A. Pozzi – torri Comin Bryncroes | £1,050 + TAW (cronfa gyfredol) |
| J.A. Pozzi – barbio Llwybr Bach, Botwnnog | £ 80 + TAW (cronfa gyfredol) |
| J.A. Pozzi – Mynwent Llandegwnning | £ 550 + TAW (cronfa'r fynwent) |

83. **PRAESEPT 2025/26**

**Cyflwynwyd** llythyr oddi wrth Bennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd yn gwahodd y Cyngor i bennu swm eu praesept ar gyfer 2025/26.
Cyflwynwyd adroddiad gan y Clarc ar y sefyllfa i fyny i ddyddiad y Cyngor fel ganlyn:

Mae'n amser pennu'r praesept am 2025/26 a'r swm ofynwyd amdano am 2024/25 oedd **CHWE MIL PUM CANT (£6,500).**
Mae mantolenni'r banc yn dangos:

| | |
|---|---|
| Cyfredol ar 3ydd Ionawr, 2025 | £7,879.55 |
| Y Fynwent ar 9fed Rhagfyr, 2024 | £3,590.34 |
| Y fantolen am fis Rhagfyr ddim i law. | |
| Cyfanswm yn y ddau gyfrif | **£11,469.89** |

Bydd y taliadau a ganlyn yn ddyledus cyn 31ain Mawrth, 2025

| | | |
|---|---|---|
| J.A. Pozzi – barbio Comin Bryncroes | £1,260.00 | o'r cyfrif cyfredol |
| J.A. Pozzi – barbio Mynwent Llandegwnning | £ 660.00 | o gyfrif y fynwent |
| J.A. Pozzi – babrio Llwybr Bach | £ 96.00 | o'r cyfrif cyfredol |
| Cyfraniad ariannol + cyfrniad heb fynd drwodd (Mynwent Botwnnog) | £ 250.00 | cyfrif cyfredol |
| Cyflog y Clarc (mis Mawrth) | £ 420.00 | cyfrif cyfredol |
| HMRC | £ 105.00 | cyfrif cyfredol |
| Hurio Ystafelloedd: | £ 110.00 os yr un pris hurio | |
| Cyfraniad Capel Rhydbach – goleuadau | £ 50.00 | cyfrif cyfredol |
| **Rhagwelir gwariant i fyny i 31/03/2025** | **£2,951.00** | |

**Amcangyfrifir y bydd hyn yn gadael £8,518.89 ar 31ain Mawrth, 2025**. Teimlir fod y ffigwr yma braidd yn uchel i'w gario ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf a dylid

ystyried a oes angen gwariant ar rhywbeth penodol yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol.

**Rhagwelir gwariant am 2025/26 ar y ffigyrau am 2024/25**

| | |
|---|---|
| Cyfraniadau Ariannol | £850.00 + |
| Y Clarc | £1680.00 |
| PAYE | £420.00 |
| Yswiriant | £880.52 + chwyddiant |
| Blodau a.y. | £200.00 |
| Un Llais Cymru ymaelodi | £186.00 + chwyddiant |
| Arfon Parry – gweletya | £20.00 + chwyddiant |
| Barbio tiroedd | £2,016 pris 2024/25. |

(Nodyn – efallai fod angen barbio mwy o lwybrau yn y flwyddyn 2025/26)

| | |
|---|---|
| Gwariant am 2025/26 o'i gymharu â 2024/25 | **£6,252.52** |

Os bydd y Cyngor yn penderfynu gofyn am yr un swm yn y praesept sef £6,500 – bydd y swm a ragwelir fydd ei angen, os yn cadw at yr un taliadau, yn cael ei dalu allan o'r praesept. Bydd cryn arian heb ei wario (oddeutu £8,500) eto yn y coffrau ddiwedd y flwyddyn 2025/26.

Ystyriwyd gwhanol brosiectau y gellid ymgymryd a hwy er hyrwyddo diddordeb yn yr ardal, e.e. diogelu enwau lleol (ymholiadau i'w wneud gyda'r Grŵp sydd wedi bod yn gwneud hyn yn ardal Llanengan); ystyried rhoddi hysbysfyrddau yn y pentrefi o hanes yr ardal; creu map o lwybrau cyhoeddus a.y. Trafodir y syniadau uchod ymhellach mewn cyfarfod o'r Cyngor.

**Penderfynwyd,** yn dilyn trafodaeth eang, lynu at yr un praesept â'r llynedd, sef **CHWE MIL PUM CANT PUNT (£6,500).**

84. **WEFAN Y CYNGOR**

**Penderfynwyd** gwneud ymholiadau gyda Arfon Parry, Cradur.com er canfod a fyddai modd gosod tudalen ar y wefan er rhoi cyfle i'r trigolion gael hysbysebu arni.